OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 2275 (Cy. 165 )

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru a Chomisiynydd Lleol yng Nghymru (Swyddogaethau a Threuliau) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *21 Mehefin 2001* |
| *Yn dod i rym - -* | *28 Gorffennaf 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 68(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**).

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru a Chomisiynydd Lleol yng Nghymru (Swyddogaethau a Threuliau) 2001 a deuant i rym ar 28 Gorffennaf 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys yng Nghymru yn unig.

(3) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr “Deddf 1974” (“the 1974 Act”) yw Deddf Llywodraeth Leol 1974(**2**);

ystyr “Deddf 2000” (“the 2000 Act”) yw Deddf Llywodraeth Leol 2000.

(4) Onid yw'n ymddangos bod yna fwriad i'r gwrthwyneb, bydd i'r ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr ystyr a roddir iddynt yn Neddf 1974 neu yn Neddf 2000 (yn ôl fel y digwydd).

**Cymhwyso darpariaethau Rhan III o Ddeddf 1974 at Swyddogaethau Comisiynydd Lleol yng Nghymru o dan Ran III o Ddeddf 2000**

**2.** At ddibenion adran 23(11) o Ddeddf 1974, bydd swyddogaethau Comisiynydd Lleol yng Nghymru o dan Ran III o Ddeddf 1974 yn cynnwys swyddogaethau'r Comisiynydd o dan Ran III o Ddeddf 2000.

(**1**) 2000 p.22.
(**2**) 1974 p.7.

**Cymhwyso darpariaethau Rhan III o Ddeddf 1974 at Swyddogaethau'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru o dan Ran III o Ddeddf 2000**

**3.** At ddibenion adrannau 23(12), (12A), (12B) a (13), a 23A o Ddeddf 1974 ac Atoden 4 iddi, bydd swyddogaethau'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru yn cynnwys ei swyddogaethau o dan Ran III o Ddeddf 2000.

**Treuliau'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru neu Gomisiynydd Lleol yng Nghymru o dan Ran III o Ddeddf 1974 i gynnwys treuliau o dan Ran III o Ddeddf 2000**

**4.** At ddibenion paragraff 6 o Atodlen 4 i Ddeddf 1974, bydd treuliau'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru o dan Ran III o Ddeddf 1974 yn cynnwys treuliau'r Comisiwn, neu dreuliau Comisiynydd Lleol yng Nghymru, o dan Ran III o Ddeddf 2000.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

21 Mehefin 2001

(**3**) 1998 p.38

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

O dan adran 68(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Deddf 2000), caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â thrin swyddogaethau Comisiynydd Lleol yng Nghymru a'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru o dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 1974 (Deddf 1974) fel pe baent yn cynnwys swyddogaethau penodedig o dan Ran III o Ddeddf 2000. Hefyd caiff y rheoliadau ddarparu i dreuliau'r Comisiwn o dan Ddeddf 1974 gynnwys treuliau Comisiynydd Lleol yng Nghymru o dan Ran III o Ddeddf 2000.

Yn y rheoliadau hyn, sy'n cael eu gwneud o dan adran 68(3), mae rheoliad 2 yn cymhwyso adran 23(11) (gofyniad i Gomisiynydd Lleol gynhyrchu adroddiad blynyddol ynghylch cyflawni swyddogaethau) o Ddeddf 1974 at swyddogaethau Comisiynydd Lleol o dan Ran II o Ddeddf 2000.

Mae Rheoliad 3 yn cymhwyso adrannau 23(12) (gofyniad i'r Comisiwn gynnal adolygiad bob tair blynedd o weithrediad Rhan III), (12A) (disgresiwn i'r Comisiwn roi cyngor a chanllawiau ynghylch Rhan III), (12B) (y personau y mae'n rhaid ymgynghori â hwy mewn perthynas â chanllawiau adran 23(12A)), (13) (cymhwyso Atodlen 4 at y Comisiwn), adran 23A (Adroddiadau Blynyddol o'r Comisiwn) ac Atodlen 4 (Y Comisiynau) at swyddogaethau'r Comisiwn o dan Ran III o Ddeddf 2000.

Mae rheoliad 4 yn cymhwyso paragraff 6 o Atodlen 4 i Ddeddf 1974 fel bod treuliau'r Comisiwn o dan y Ddeddf honno yn cynnwys treuliau'r Comisiwn neu dreuliau Comisiynydd o dan Ran III o Ddeddf 2000.